***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 213

# Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision a Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022

## RHAN 2

### Yr hawl i bysgodfa unigol

**Incwm o ardal y bysgodfa unigol**

**13.** Rhaid i'r holl incwm y mae'r Grantî yn ei gael drwy rent sy'n daladwy o dan les gael ei gymhwyso at y dibenion a ganlyn yn y drefn o ran blaenoriaeth a restrir isod—

(a) talu treuliau cael y Gorchymyn hwn;

(b) marcio ffiniau ardal y bysgodfa unigol a'r magwrfeydd;

(c) dinistrio plâu sy'n niweidiol i'r rhywogaethau rhagnodedig; a

(d) rheoli, goruchwylio a gwella ardal y bysgodfa unigol.